Canllaw ar fesurydd dŵr i gwsmeriaid preswyl

TACHWEDD 2009

We want to help you decide which is the best way for you to pay your water and sewerage services. This leaflet contains the most frequently asked questions about having a water meter. It also explains some of your obligations should you decide to have a water meter.

We hope it will assist you in deciding whether metering is right for you. If after reading the leaflet you have any further questions, please contact us on 0800 052 0140.

What is a water meter?

A water meter works in a very similar way to a gas or electricity meter. The water meter records the amount of water (in cubic metres) going through the pipe to your premises. We use the readings from the water meter to work out how much to charge you for the amount of water you use. If your premises is connected to our public sewer, we will also use the meter readings to work out how much to charge you for your sewerage services although we do not assume that all water returns to the public sewer as we know you will have used water for cooking and drinking.

One cubic metre is equivalent to 1,000 litres or about 220 gallons.

Where will the meter be installed?

We will carry out a simple survey at your premises and decide on the most suitable place for the water meter to be installed. It must be installed where it will measure all the water you use, including any outside taps, outbuildings etc, and where it will be easily accessible for reading and maintenance. Normally this will be in a small underground chamber between your premises and the highway. Sometimes this may not be possible and we will then install the water meter inside your premises.

Your water supply will be off for up to two hours while we install the water meter for you.

Who is responsible for the supply pipe running from the meter into my premises?

We are responsible for the water main in the street and the pipe that runs from our main to the boundary of the street. You are responsible for the pipe that runs from the boundary of the street/highway into your premises, regardless of whether the meter is inside or outside your property. As the water meter will record all the water that goes through this pipe, any leaks or bursts should be fixed immediately. To get a copy of our booklet 'Code of Practice on leakage', please call us on 0800 052 0138 or download it at www.dwrcymru.com/publications/.

Will fitting a water meter affect the electrical earthing in my house?

Many years ago the water service pipe was sometimes used as a means of providing an electrical earthing system to a property. However, this practice does not comply with current standards and has been banned since 1966. If your water service pipe is used as an earth, the work we carry out in fitting a meter may make it unsuitable for this purpose. In this case we strongly advise you to have your electrical system tested by an appropriately qualified electrician.

The earthing of a property is the sole responsibility of the owner of the property and we accept no liability for the use of a water service pipe as an electrical earthing system. If you are not the owner of the property, please pass this advice on earthing to the owner or landlord.

Please note: Our staff are not qualified to discuss earthing arrangements for your electrical installation.

Can you always install a water meter?

No, there are some premises especially flats, and premises on joint supplies with neighbouring premises, where it is not possible to install a water meter. We will advise you following our survey visit if this applies to you. If we cannot install a water meter, you may choose to remain on your current unmeasured charge or to be charged on the basis of our Assessed Measured Charge. Further details of this can be found in our 'Scheme of charges' publication. To get a copy of our booklet call us on 0800 052 0138 or download it at www.dwrcymru.com/publications/.

Can anyone have a water meter?

Yes, anyone can have a water meter fitted free of charge, providing it is practicable to install one and doing so will not incur unreasonable expense. However, if you live in rented premises you should let your landlord know that you are applying for one. If you have a short term tenancy of less than six months, then you will need your landlord's permission before a water meter can be installed. In such cases your landlord must confirm his agreement in writing.

Who owns the water meter?

The water meter remains the property of Dŵr Cymru Welsh Water and therefore, the meter must not be removed or made inaccessible. It is against the law to change the way it reads, or to tamper with it any way whatsoever. If you have an internal meter fitted, you are responsible for protecting the meter against damage and frost.

Are water meters accurate?

Yes, they are manufactured and tested to a British Standard specification (BS 5728/1 and ISO 4064/1).

Will I save money with a water meter?

If you live on your own, have a small family, or live in a house with a high rateable value you may find that you save money by having a meter installed. If you have already contacted us, we will have outlined any possible change to your bill that may occur should you decide to have a water meter installed based on the information you gave us. Please remember this is an estimated figure, and you will be charged according to the amount of water you actually use. If you haven't received an outline of the possible change to your bill should you have a water meter installed, please call us on 0800 052 0140, and we will provide you with the necessary information.

What about reading the water meter?

Although we aim to read your water meter at least once a year, it is in your own interest to take regular meter readings if it is safe for you to do so.

This way you will be able to find out if there is any increase in the amount of water you are using which may be due to leaks, bursts or running overflows. Increases may also be due to the installation of a new appliance or additional people being with you. We suggest that you read the water meter on the same day each month and keep a record of the readings. This will help you spot any wastage or leakage and carry out repairs quickly. By agreeing to have a water meter you are also responsible for providing access to Welsh Water employees and/or their representatives to read and maintain the meter.

How often will you send me a bill?

We will usually send you a bill every six months. However as it will depend on when our meter readers are already scheduled to be in your area, you may receive your first bill within six months of a meter being installed. If after one month of your water meter being fitted you would like to have a bill, call us on 0800 052 0140 with the meter reading. Please note if you have already arranged a payment plan with us, your bill will be issued for information only.

How can I pay my bills?

The easiest way to pay your bill is by direct debit or online at www.dwrcymru.com by using your debit or credit card. We do have a range of other payment methods to choose from including cheque, payment booklet or payment card. With a payment plan we estimate how much water you will use in a year and divide this total into regular monthly payments. We will review your usage or consumption and may adjust the amount you pay every time we have a reading from your meter. Call us on 0800 052 0140 if you would like to set up a payment plan.

What will happen to the money I have already paid on my unmeasured bill?

Metered charges begin from the day the water meter is installed. Until then please continue to pay your unmeasured bill as usual and we will make any necessary adjustment later. Any money we owe you will be credited to your new metered account.

Can I change back to an unmeasured bill once I have had a water meter installed?

Yes, but there is a time limit on this. You can usually go back to your previous unmeasured charging any time up to one month after we have issued bills for 12 months, beginning with the day that the water meter was installed. After this time, your premises will remain metered. If however you have a swimming pool at your premises which is automatically filled or you use a garden sprinkler then you must continue to pay metered charges.

What happens if I move or want to sell my property?

If you sell your premises or move out, the new occupier will not have the option to change back to an unmeasured bill. Only you can do this as outlined above. It is therefore a good idea to let the buyers know that there is a water meter installed at the premises.

Dŵr Cymru
Welsh Water

www.dwrcymru.com

INS 0012

A guide to having a water meter for household customers

NOVEMBER 2009

Rydym am eich helpu i benderfynu p'un yw'r ffordd orau i chi dalu am eich gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth. Yn y daflen hon, ceir y cwestiynau mwyaf cyffredin am gael mesurydd dŵr. Mae hefyd yn esbonio rhai o'ch rhwymedigaethau pe baech yn penderfynu cael mesurydd dŵr.

Gobeithio y bydd yn eich helpu i benderfynu p'un a yw cael mesurydd dŵr yn iawn i chi. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau pellach ar ôl i chi ddarllen y daflen hon, cysylltwch â ni drwy ffonio 0800 052 0140.

Beth yw mesurydd dŵr?

Mae mesurydd dŵr yn gweithio mewn ffordd debyg iawn i fesurydd nwy neu drydan. Mae'r mesurydd dŵr yn cofnodi faint o ddŵr (mewn metrau ciwbig) sy'n mynd drwy'r bibell i'ch adeilad. Defnyddiwn y darlleniadau o'r mesurydd dŵr i gyfrif faint i godi arnoch am y dŵr a ddefnyddir gennych. Os yw eich adeilad wedi'i gysylltu â'n carthffos gyhoeddus, byddwn hefyd yn defnyddio darlleniadau'r mesurydd i gyfrif faint i godi arnoch am eich gwasanaethau carthffosiaeth, er nad ydym yn tybio bod yr holl ddŵr yn dychwelyd i'r garthffos gyhoeddus gan y gwyddom y byddwch wedi defnyddio dŵr at ddiben coginio ac yfed.

Mae un metr ciwbig yn cyfateb i 1,000 litr neu tua 220 o alwyni.

Ble y caiff y mesurydd ei osod?

Byddwn yn cynnal arolwg syml yn eich adeilad ac yna'n penderfynu ar y man mwyaf addas i osod y mesurydd dŵr. Mae'n rhaid ei osod mewn man lle y bydd yn mesur yr holl ddŵr rydych yn ei ddefnyddio, gan gynnwys unrhyw dapiau y tu allan, tai allan ac ati a lle y bydd yn hawdd ei gyrraedd i'w ddarllen a'i gynnal a'i gadw. Fel arfer bydd hyn mewn siambr fach danddaearol rhwng eich adeilad a'r brif ffordd. Ni fydd hyn yn bosibl weithiau a byddwn wedyn yn gosod y mesurydd dŵr y tu mewn i'ch adeilad.

Ni fydd eich cyflenwad dŵr ar gael am hyd at ddwy awr tra byddwn yn gosod y mesurydd dŵr i chi.

Pwy sy'n gyfrifol am y bibell gyflenwi sy'n rhedeg o'r mesurydd i mewn i'm hadeilad?

Ni sy'n gyfrifol am y brif bibell ddŵr yn y stryd a'r bibell sy'n rhedeg o'n prif bibell ddŵr i ffin y stryd. Chi sy'n gyfrifol am y bibell sy'n rhedeg o ffin y stryd/y brif ffordd i mewn i'ch adeilad, waeth p'un a yw'r mesurydd y tu mewn neu'r tu allan i'ch eiddo. Gan y bydd y mesurydd dŵr yn cofnodi'r holl ddŵr sy'n mynd drwy'r bibell, dylai unrhyw ollyngiadau neu doriadau gael eu trwsio ar unwaith. I gael copi o'n llyfryn 'Cod Ymarfer Gollyngiadau', ffoniwch ni ar 0800 052 0138 neu gallwch ei lawrlwytho yn www.dwrcymru.com/welsh/library/publications/.

A fydd gosod mesurydd dŵr yn effeithio ar ddaearu trydanol yn fy nhŷ?

Flynyddoedd maith yn ôl, defnyddiwyd y bibell cyflenwi dŵr o bryd i'w gilydd i ddarparu system ddaearu drydanol i eiddo. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hwn yn cydymffurfio â safonau presennol ac mae wedi'i wahardd ers 1966. Os caiff eich pibell cyflenwi dŵr ei defnyddio fel rhan o'ch trefniadau daearu, gall y gwaith y byddwn yn ei wneud i osod mesurydd olygu ei bod yn anaddas at y diben hwn. Yn yr achos hwn, rydym yn argymell yn gryf eich bod yn cael trydanwr sy'n meddu ar y cymwysterau priodol i brofi eich system drydanol. Cyfrifoldeb y perchennog yn unig yw daearu'r eiddo ac nid ydym yn atebol am ddefnyddio pibell cyflenwi dŵr fel system ddaearu drydanol. Os nad chi yw perchennog yr eiddo, rhowch y cyngor hwn ar ddaearu i'r perchennog neu'r landlord.

Noder: Nid yw ein staff yn gymwys i drafod trefniadau daearu ar gyfer eich gosodiad trydanol.

A allwch osod mesurydd dŵr bob tro?

Na allwn, mae rhai adeiladau yn enwedig fflatiau, ac adeiladau sy'n rhannu cyflenwad ag adeiladau cyfagos, lle nad yw'n bosibl gosod mesurydd dŵr. Byddwn yn eich hysbysu a yw hyn yn berthnasol i chi ar ôl cynnal arolwg o'ch adeilad. Os na allwn osod mesurydd dŵr, gallwch ddewis parhau i dderbyn biliau anfesuredig neu filiau'n seiliedig ar Amcangyfrif Pris Mesuredig. Gellir gweld rhagor o fanylion am hyn yn ein dogfen 'Cynllun prisiau'. I gael copi o'n llyfryn, ffoniwch ni ar 0800 052 0138 neu gallwch ei lawrlwytho yn www.dwrcymru.com/welsh/library/publications/.

A all unrhyw un gael mesurydd dŵr?

Gall unrhyw un gael mesurydd dŵr wedi ei osod am ddim, ar yr amod ei bod yn ymarferol i osod un ac na fydd gwneud hynny yn arwain at gostau afresymol. Fodd bynnag, os ydych yn byw mewn adeilad a rentir dylech hysbysu'ch landlord eich bod yn gwneud cais am un. Os oes gennych denantiaeth fyrdymor o lai na chwe mis, bydd angen caniatâd eich landlord arnoch cyn y gellir gosod mesurydd dŵr. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i'ch landlord gadarnhau ei gytundeb yn ysgrifenedig.

Pwy sy'n berchen ar y mesurydd dŵr?

Bydd y mesurydd dŵr yn parhau'n eiddo i Dŵr Cymru ac felly, ni chaniateir tynnu'r mesurydd na rhwystro mynediad iddo. Mae newid darlleniad, neu ymyrryd â'r offer mewn unrhyw ffordd yn anghyfreithlon. Os bydd gennych fesurydd mewnol wedi'i osod, chi sy'n gyfrifol am ei ddiogelu rhag difrod a rhew.

A yw mesuryddion dŵr yn gywir?

Ydynt, cânt eu gweithgynhyrchu a'u profi er mwyn cydymffurfio â gofynion y Safonau Prydeinig (BS 5728/1 ac ISO 4064/1).

A fyddaf yn arbed arian gyda mesurydd dŵr?

Os ydych yn byw ar eich pen eich hun, os oes gennych deulu bach, neu os ydych yn byw mewn tŷ â gwerth ardrethol uchel gallwch arbed arian drwy osod mesurydd. Os ydych eisoes wedi cysylltu â ni, byddwn wedi amlinellu unrhyw newid posibl i'ch bil a all ddigwydd pe baech yn penderfynu gosod mesurydd dŵr yn seiliedig ar y wybodaeth a roesoch i ni. Cofiwch mai ffigur amcangyfrifedig yw hwn. Codir tâl arnoch yn unol â faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio mewn gwirionedd. Os nad ydych wedi cael amlinelliad o'r newid posibl i'ch bil pe baech yn penderfynu gosod mesurydd dŵr, ffoniwch ni ar 0800 052 0140, a byddwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Beth am ddarllen y mesurydd dŵr?

Er ein bod yn anelu at ddarllen eich mesurydd dŵr o leiaf unwaith y flwyddyn, mae'n syniad da i chi gymryd darlleniadau rheolaidd o'r mesurydd os yw'n ddiogel i chi wneud hynny.

Drwy wneud hyn, byddwch yn gallu canfod unrhyw gynnydd o ran y dŵr rydych yn ei ddefnyddio oherwydd gollyngiadau, toriadau neu bibellau'n gorlifo. Gall gosod cyfarpar newydd neu gael mwy o bobl yn byw gyda chi gynyddu faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio. Awgrymwn y dylech ddarllen y mesurydd dŵr ar yr un diwrnod bob mis a'ch bod yn cadw cofnod o'r darlleniadau. Bydd hyn yn eich helpu i nodi unrhyw wastraff neu ollyngiadau dŵr a chyflawni atgyweiriadau'n gyflym. Drwy gytuno i gael mesurydd dŵr, rydych hefyd yn gyfrifol am alluogi cyflogeion Dŵr Cymru a/neu eu cynrychiolwyr i ddarllen a chynnal a chadw'r mesurydd.

Pa mor aml y byddwch yn anfon bil ataf?

Byddwn fel arfer yn anfon bil atoch bob chwe mis. Fodd bynnag, gan y bydd y dyddiad yn dibynnu ar raglen ymweld ein darllenwyr mesuryddion yn eich ardal, mae'n bosibl y cewch eich bil cyntaf o fewn chwe mis i osod y mesurydd. Os hoffech gael bil ar ôl mis i'ch mesurydd dŵr gael ei osod, ffoniwch ni ar 0800 052 0140 gyda'r darlleniad. Noder os ydych eisoes wedi trefnu cynllun talu gyda ni, byddwn yn anfon bil er gwybodaeth yn unig.

Sut y gallaf dalu fy miliau?

Y ffordd hawsaf o dalu eich bil yw drwy ddebyd uniongyrchol neu ar-lein yn www.dwrcymru.com drwy ddefnyddio eich cerdyn debyd neu'ch cerdyn credyd. Mae gennym ystod o ddulliau eraill o dalu i ddewis ohonynt gan gynnwys siec, llyfryn talu neu gerdyn talu. Gyda chynllun talu, rydym yn amcangyfrif faint o ddŵr y byddwch yn ei ddefnyddio mewn blwyddyn ac yn rhannu'r cyfanswm hwn yn daliadau misol rheolaidd. Byddwn yn adolygu eich defnydd ac efallai y byddwn yn addasu faint rydych yn ei dalu bob tro y cawn ddarlleniad o'ch mesurydd. Ffoniwch ni ar 0800 052 0140 os hoffech drefnu cynllun talu.

Beth fydd yn digwydd i'r arian rwyf eisoes wedi'i dalu ar fy miliau anfesuredig?

Mae taliadau mesuredig yn dechrau o'r diwrnod y caiff y mesurydd dŵr ei osod. Tan hynny, parhewch i dalu eich bil anfesuredig yn ôl yr arfer a byddwn yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol yn ddiweddarach. Caiff unrhyw arian sy'n ddyledus gennym ei gredydu i'ch cyfrif mesuredig newydd.

A allaf newid yn ôl i fil anfesuredig ar ôl i mi gael mesurydd dŵr wedi ei osod?

Gallwch, ond mae terfyn amser ar hyn. Fel arfer gallwch ddychwelyd i'ch ffordd flaenorol o dalu ar sail anfesuredig ar unrhyw adeg hyd at fis ar ôl i ni roi biliau i chi am 12 mis, gan ddechrau gyda'r diwrnod y cafodd y mesurydd dŵr ei osod. Ar ôl yr amser hwn, bydd mesurydd yn aros yn eich adeilad. Fodd bynnag, os oes gennych bwll nofio yn eich adeilad a gaiff ei lenwi'n awtomatig neu os ydych yn defnyddio taenellwr i ddyfrio'r ardd, yna mae'n rhaid i chi barhau i dalu biliau mesuredig.

Beth sy'n digwydd os byddaf yn symud neu am werthu fy eiddo?

Os byddwch yn gwerthu eich adeilad neu'n symud allan, ni chaiff y deiliad newydd yr opsiwn i newid yn ôl i fil anfesuredig. Dim ond chi a all wneud hyn fel yr amlinellir uchod. Felly mae'n syniad da rhoi gwybod i'r prynwyr fod mesurydd dŵr wedi'i osod yn yr adeilad.

Dŵr Cymru
Welsh Water

www.dwrcymru.com

INS 0012